**Atodiad A**

## Adolygiad Cyflym - Cylch Gorchwyl

Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi penderfynu cynnal adolygiad o gymorth Llywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol yng Nghymru drwy helpu i fodloni heriau presennol a heriau'r dyfodol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â modelau busnes sy'n newid, y cyfnod pontio wrth i'r DU ymadael â'r UE, datblygiadau technolegol, a meithrin gallu er mwyn bod yn barod ar gyfer datblygiadau posibl yn y dyfodol o ran yr awdurdodaeth gyfreithiol.

Bydd yr adolygiad yn cynnwys:-

a) y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ar hyn o bryd i gefnogi'r sector cyfreithiol yng Nghymru;

b) pa gamau fydd yn effeithiol (neu a fu yn effeithiol yn y gorffennol) a pha gamau sy'n llai effeithiol;

c) pa gymorth fyddai'r sector cyfreithiol yn hoffi ei gael gan y Llywodraeth;

d) a fyddai dull gwahanol o gaffael gwasanaethau cyfreithiol yn gyhoeddus yn hwyluso datblygiad perthynas wahanol rhwng Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus eraill â'r sector cyfreithiol yng Nghymru. Er enghraifft, dull o greu partneriaeth strategol i fod yn sail i ddatblygu "Awdurdodaeth" ar wahân neu unigryw o gymharu â perthynas traddodiadol/cyfyngedig rhwng y cwmser â'r cyflenwr. A fyddai'r sector yn croesawu perthynas o'r fath? Hefyd, sut fyddai'r dull hwn o weithio neu newidiadau eraill i'r polisi caffael cyhoeddus yn gwasanaethu amcanion y Cynllun Gweithredu Economaidd yn y ffordd orau;

e) Pa gyfyngiadau (real neu ymddangosiadol) sy'n atal darparwyr gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru rhag ennill mwy o waith o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu allan;

f) Sut y gellir defnyddio y polisi caffael cyhoeddus yn well i hwyluso'r broses o sicrhau mynediad at amcanion cyfiawnder yn anuniongyrchol drwy ddarparu cyfleoedd a fyddai'n cyfrannu at amgylcheddau gweithredu mwy cynaliadwy i gwmnïau bach a gwledig;

g) a allai rhagor o gydweithio o fewn y sector cyfreithiol a chyda sectorau eraill (gan gynnwys y sectorau addysg a hyfforddi) gefnogi ei ddatblygiad;

h) pa gymorth sy'n debygol o fod yn effeithiol i helpu i fodloni'r heriau a'r cyfleoedd gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â:

    i. Modelau busnes sy'n newid (gan gynnwys y rhai hynny sy'n codi o reoliadau sydd wedi newid ar gyfer cymwysterau ac arfer)

ii. Y cyfnod pontio wrth i’r DU ymadael â'r UE a newidiadau cyfansoddiadol eraill gan gynnwys y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder yn y dyfodol

iii. datblygiadau mewn technoleg

iv. posibilrwydd datblygiadau yn y dyfodol o safbwynt yr awdurdodaeth gyfreithiol.

Bydd yr adolygiad yn ystyried natur wahanol y sector cyfreithiol (o ran y gwasanaethau a'r lleoliad), a'r angen i deilwra y cymorth a'r caffael gan Lywodraeth Cymru o bosibl yn unol â hynny.

At ddibenion yr adolygiad, y sector cyfreithiol yw'r proffesiwn cyfreithiol (yn cynnwys bargyfreithwyr a chyfreithwyr), swyddogion gweithredol cyfreithiol a darparwyr gwasanaethau a thechnoleg eraill.

<u>Amcanion</u>

Darparu Llywodraeth Cymru gyda:

- tystiolaeth i fod yn sail i bolisi newydd i roi cymorth uniongyrchol i'r sector cyfreithiol yng Nghymru, a pholisi o'r fath i fod yn bwrpasol i'r sector ond wedi'i osod o fewn cyd-destun Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru;

- tystiolaeth i lywio dull newydd posibl o gaffael gwasanaethau cyfreithiol yng ngoleuni'r ffaith bod fframwaith presennol cyfreithwyr ar draws y sector cyhoeddus (wedi'i osod a'i reoli gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol), i gael ei adnewyddu yn 2019;

- tystiolaeth i lywio dull newydd posibl o benodi y Cwnsel gan ystyried trefniadau presennol Cwnsel y Panel sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru a threfniadau'r fframwaith a sefydlwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol sy'n cefnogi'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru;

- asesiad o'r camau y gall y sector cyfreithiol ei gymryd ei hun i ddatblygu ymhellach (gan gynnwys sefydlu canolfan neu frand o bosib ar gyfer y sector cyfreithiol) ac argymhellion ar gyfer sut y gall y llywodraeth ddefnyddio'r dulliau sydd ganddi i ddylanwadu ar ymddygiad o fewn y sector (gan gynnwys dulliau megis caffael, hyrwyddo y broses o drosglwyddo gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru i wlad arall o bosibl ac ariannu prentisiaethau cyfreithiol);

- dealltwriaeth yn benodol o ba ddatblygiadau technolegol a dulliau arloesi eraill y gellir eu defnyddio i ddarparu gwell gwasanaethau i'r sector cyfreithiol yng Nghymru a chreu mantais gystadleuol;

- argymhellion o sut y gall y sector cyfreithiol yng Nghymru hyrwyddo ei hun fel sector sydd ag arbenigedd benodol ar gyfer Cymru; ac

- argymhellion o ran sut y gall y sector cyfreithiol yng Nghymru allforio mwy o wasanaethau cyfreithiol y tu hwnt i Gymru.

Bydd yr Adolygiad hefyd yn:

- Ystyried yr adolygiadau perthnasol a gynhaliwyd yn wreiddiol;
- Dysgu o arfer gorau o fewn y sector cyfreithiol (neu sectorau perthnasol eraill) o fewn y DU ac yn fyd-eang, ac ystyried gwybodaeth ac adborth y cleient; a
- chefnogi'r broses o ddarparu'r Cynllun Gweithredu Economaidd a'r egwyddorion sy'n sail i'r Rhaglen Lywodraethu: Ffyniant i Bawb.